

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.4 Cyflwyniad i Gymorth Rhodd



Mae Gymorth Rhodd yn galluogi elusennau i hawlio'r gyfradd treth incwm sylfaenol yn ôl gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar roddion gan drethdalwyr yn y DU. Gan fod y gyfradd treth incwm sylfaenol yn 20 y cant, mae hyn yn golygu y cewch hawlio 25c ychwanegol am bob £1 a roddir i chi. Y cyfan sydd angen i'r rhoddwr ei wneud yw gwneud datganiad Gymorth Rhodd yn dweud eu bod wedi talu o leiaf gymaint o dreth incwm/enillion cyfalaf am flwyddyn a'r swm mae'r elusen (neu CASC) ac unrhyw elusennau eraill/CASC maent yn rhoi i yn hawlio. Gall un datganiad weithredu ar roddion yn y gorffennol a'r dyfodol. Gall elusen hawlio Gymorth Rhodd ar roddion a dderbyniwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hwn i gyd yn cyfri, a gall wneud gwahaniaeth sylweddol i'ch elusen.

Beth yw'r manteision?

Mae Gymorth Rhodd yn ffordd wych o roi hwb i'r rhoddion a dderbyniwch, beth bynnag bo'u maint, yn rhad ac am ddim i'r rhoddwr, a chyda phrin ddim gwaith gweinyddol ychwanegol i'r elusen. Does dim isafswm nac uchafswm, a symleiddiwyd y wybodaeth sydd ei hangen gan y rhoddwr, sy'n golygu bod Gymorth Rhodd yn ffordd eithriadol o effeithiol a hyblyg o roi.

Pum cam i fanteisio ar Gymorth Rhodd

- Cam 1:** Cwblhewch Ffurflen Gais Elusennau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gofrestru, neu Ffurflen Gofrestru CASC (Community Amateur Sports Club) ChN1.
- Cam 2:** Mynnwch ddatganiad Gymorth Rhodd oddi wrth eich rhoddwyr.
- Cam 3:** Cadwch gofnodion o'r datganiadau a'r rhoddion gyda llwybr archwilio clir.
- Cam 4:** Gwnewch hawliadau rheolaidd i adhawlio'r dreth yn ôl oddi wrth HMRC.
- Cam 5:** Gwnewch yn siŵr fod eich rhoddwyr yn gwybod am Gymorth Rhodd! Pwysleisiwch na fydd yn costio ceiniog i roddwyr ddefnyddio Gymorth Rhodd, a gallwch ddweud wrthynt yr hyn y gallech ei brynu gyda'r incwm ychwanegol y byddech yn ei dderbyn.

Sut mae'r ad-daliad treth yn gweithio

Yn syml iawn, mae Gymorth Rhodd yn rhoi cyfle i'r elusen hawlio'r gyfradd treth incwm sylfaenol ar y rhodd, sydd oddeutu 25 y cant yn fwy.

Rhoddwyr yn rhoi i'ch elusen	£100.00
Elusen yn hawlio'r gyfradd treth incwm sylfaenol ar y rhodd gros gan HMRC:	£25.00
Cyfanswm a gewch chi	£125.00

Pwy sy'n gymwys?

Er mwyn i rodd fod yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd, rhaid i'r rhoddwr fod yn drethdalwr yn y DU. Rhaid iddynt dalu o leiaf gymaint o dreth incwm DU neu dreth enillion cyfalaf â faint o dreth fydd eich elusen (neu CASC) ac unrhyw elusennau eraill/CASC maent yn rhoi i yn hawlio ar eu rhoddion yn ystod y flwyddyn dreth honno. Bydd blwyddyn dreth yn dechrau ar y 6 Ebrill ac yn gorffen ar y 5 Ebrill canlynol. Bydd eich elusen yn hawlio 25c gan Gyllid y Wlad am bob £1 a roddir. Felly, petai roddwr yn rhoi £100 i chi mewn blwyddyn dreth, byddai'n rhaid iddynt fod wedi talu o leiaf £25 mewn treth cyn i chi allu hawlio gan Gyllid y Wlad. Nid yw cyfradd treth y rhoddwr yn gwneud unrhyw wahaniaeth - gallai fod yn 20, 40 neu 50 y cant. Gallai fod yn dreth a dynnir o log banc neu gymdeithas adeiladau neu'r credyd treth ar ddifidend. Yr hyn sy'n bwysig yw bod faint o dreth y maent yn ei dalu yn ystod y flwyddyn dreth o leiaf gymaint â'r dreth y bydd eich elusen yn ei hawlio.

Trethdalwyr ar y gyfradd uwch

Gall trethdalwyr ar y gyfradd uwch adennill y gwahaniaeth rhwng y gyfradd uwch (40%) a'r gyfradd sylfaenol (20%) ar roddion. Ar gyfer y gyfradd dreth uchaf (50% ar hyn o bryd ac lleihau i 45% o Ebrill 2012, gellir adennill y gwahaniaeth rhwng y gyfradd uchaf a'r gyfradd sylfaenol (20%).

Enghraifft:

Trethdalwr cyfradd uwch yn rhoi i'ch elusen	£100.00
Elusen yn hawlio'r gyfradd sylfaenol (20%)	£25.00
Elusen yn derbyn	£125.00
Rhoddwyr yn hawlio'r gyfradd uwch i'w hunan	£25.00

Gall y trethdalwr ar y raddfa uwch adhawlio'r rhyddhad drwy'r ffurflen treth, y ffurflen Adolygu Treth neu drwy gysylltu â'r swyddfa dreth sy'n delio gyda nhw.

Mae ymchwil CAF (2009) wedi darganfod fod hanner y trethdalwyr ar raddfa uwch yn anymwybodol o'r rhyddhad personol ar roddion sydd ar gael iddynt, dim ond un rhan o bump a'i defnyddiodd, ac mae'r mwyafrif yn fodlon rhoi arian i elusennau. Gall elusennau wneud defnydd o'r wybodaeth yma wrth hyrwyddo Cymorth Rhodd.

Gweler gwefan Coleg Brenhinol Llundain am enghraifft sut i hyrwyddo Cymorth Rhodd i drethdalwyr ar y raddfa uwch.

www.kcl.ac.uk/support/give/giftaid/html

Gwybodaeth bellach

Cymru'n Rhoi

Llinell gymorth 0800 2888 329

givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres

www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising

www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities

Llinell Gymorth 0845 302 0203

charities@hmrc.gov.uk

www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 218093

Ffôn: 0300 111 0124

help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701

www.wcva.org.uk



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 28/03/2012